



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 1423 (Cy.176) (C.53)

Y GYMRAEG

**Gorchymyn Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 6)
2012**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan adrannau 150(5) a 156(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n cychwyn darpariaethau yn y Mesur sy'n ymwneud â swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Adrannau 4, 11, 144(1) a 144(3)(a) yw'r darpariaethau perthnasol.

Mae adran 4 y Mesur yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol yn ei dyb ef er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ac er mwyn gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae adran 11 yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol yn ei dyb ef mewn cysylltiad ag unrhyw un o'i swyddogaethau.

Mae adrannau 144(1) a 144(3)(a) yn darparu ar gyfer diddymu swyddogaethau a fu gynt yn cael eu harfer gan Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Rhoddodd adran 3 Deddf 1993 swyddogaethau ynghylch hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg i'r Bwrdd. Yn ogystal, dan adran 3, rhoddwyd y pŵer i'r Bwrdd wneud unrhyw beth oedd yn gysylltiedig â pherfformio'i swyddogaethau neu'n ffafriol o ran eu perfformio. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn i'r Comisiynydd a Gweinidogion Cymru pan gafodd y Bwrdd ei ddiddymu. O ganlyniad i gychwyn adrannau 4 a 11 y Mesur, mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn adrannau 144(1) a 144(3)(a) yn rhannol, at ddibenion diddymu'r swyddogaethau a roddwyd i'r Comisiynydd gan adran 3 o Ddeddf 1993.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 1423 (W.176) (C.53)

WELSH LANGUAGE

**The Welsh Language (Wales)
Measure 2011 (Commencement
No.6) Order 2012**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order is made under sections 150(5) and 156(2) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011. It brings into force provisions of the Measure that relate to the Welsh Language Commissioner's function of promoting and facilitating the use of the Welsh language. The relevant provisions are sections 4, 11, 144(1) and 144(3)(a).

Section 4 of the Measure gives the Commissioner the power to do anything he or she thinks appropriate to promote and facilitate the use of the Welsh language and to work towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language. Section 11 gives the Commissioner the power to do anything that he or she thinks to be appropriate in connection with any of his or her functions.

Sections 144(1) and 144(3)(a) provide for the abolition and repeal of functions that were formerly exercised by the Welsh Language Board under section 3 of the Welsh Language Act 1993. Section 3 of the 1993 Act gave the Board functions relating to promoting and facilitating the use of Welsh. In addition, under section 3, the Board was given the power to do anything that was incidental or conducive to the performance of its functions. These functions were transferred to the Commissioner and the Welsh Ministers upon the Board's abolition. As a result of the coming into force of sections 4 and 11 of the Measure this Order partially commences section 144(1) and 144(3)(a) for the purpose of abolishing the functions conferred upon the Commissioner by section 3 of the 1993 Act.

**NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION
CYCHWYN CYNHARACH**

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol y Mesur wedi eu dwyn i rym drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

**NOTE AS TO EARLIER
COMMENCEMENT ORDERS**

(This note is not part of the Order)

The following provisions of the Measure have been brought into force by commencement orders made before the date of this Order:

<i>Y ddarpariaeth</i>	<i>Y dyddiad cychwyn</i>	<i>Rhif O.S.</i>	<i>Provision</i>	<i>Date of Commencement</i>	<i>S.I. No.</i>
adran 2(2) (yn rhannol)	28 Mehefin 2011	2011/1586 (Cy. 182)	section 2(2) (partially)	28 June 2011	2011/1586 (W. 182)
adran 2(3) (yn rhannol)	28 Mehefin 2011	2011/1586 (Cy. 182)	section 2(3) (partially)	28 June 2011	2011/1586 (W. 182)
adran 2 (yn llawn)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	section 2 (fully)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adran 3	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	section 3	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adrannau 5 a 6	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	sections 5 and 6	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adran 7 (yn rhannol)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	section 7 (partially)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adrannau 8 i 10	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	sections 8 to 10	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adrannau 12 i 15	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	sections 12 to 15	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adran 16 (yn rhannol)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	section 16 (partially)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adrannau 17 i 19	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	sections 17 to 19	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adran 22 (yn rhannol)	17 Ebrill 2012	2012/1096 (Cy. 135)	section 22 (partially)	17 April 2012	2012/1096 (W. 135)
adran 23(1) (yn rhannol)	10 Ionawr 2012	2012/46 (Cy.10)	section 23(1) (partially)	10 January 2012	2012/46 (W.10)
adran 23(4)	10 Ionawr 2012	2012/46 (Cy.10)	section 23(4)	10 January 2012	2012/46 (W.10)
adran 23 (yn llawn)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	section 23 (fully)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adran 24	17 Ebrill 2012	2012/1096 (Cy. 135)	section 24	17 April 2012	2012/1096 (W. 135)
Rhan 4, Penodau 2 i 5	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	Part 4, Chapters 2 to 5	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adran 44	17 Ebrill 2012	2012/1096 (Cy. 135)	section 44	17 April 2012	2012/1096 (W. 135)
Rhan 4, Pennod 8	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	Part 4, Chapter 8	1 April 2012	2012/969 (W. 126)

Rhan 4, Pennod 9 (yn rhannol)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	Part 4, Chapter 9 (partially)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
Rhan 6	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	Part 6	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adran 120(4) (yn rhannol)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	section 120(4) (partially)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adrannau 134 i 137	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	sections 134 to 137	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adrannau 138 a 139 (yn rhannol)	28 Mehefin 2011	2011/1586 (Cy. 182)	sections 138 and 139 (partially)	28 June 2012	2011/1586 (W. 182)
adrannau 138 a 139 (yn llawn)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	sections 138 and 139 (fully)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adran 140 (yn rhannol)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	section 140 (partially)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adran 141 (yn rhannol)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	section 141 (partially)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adrannau 142 a 143	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	sections 142 and 143	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adran 144 (yn rhannol)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	section 144 (partially)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adran 146 (yn rhannol)	28 Mehefin 2011	2011/1586 (Cy. 182)	section 146 (partially)	28 June 2012	2011/1586 (W. 182)
adran 146 (yn llawn)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	section 146 (fully)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adran 147	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	section 147	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
adrannau 148 a 149	5 Chwefror 2012	2012/223 (Cy.37)	sections 148 and 149	5 February 2012	2012/223 (W.37)
Atodlen 1, paragraffau 3, 7, 8, 13 ac 21	28 Mehefin 2011	2011/1586 (Cy. 182)	Schedule 1, paragraphs 3, 7, 8, 13 and 21	28 June 2012	2011/1586 (W. 182)
Atodlen 1 (yn llawn)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	Schedule 1 (fully)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
Atodlen 2 (yn rhannol)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	Schedule 2 (partially)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
Atodlen 4, paragraffau 1, 5, 10 ac 11	10 Ionawr 2012	2012/46 (Cy.10)	Schedule 4, paragraphs 1, 5, 10 and 11	10 January 2012	2012/46 (W.10)
Atodlen 4 (yn llawn)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	Schedule 4 (fully)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
Atodlenni 5 i 9	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	Schedules 5 to 9	1 April 2012	2012/969 (W. 126)
Atodlen 11 (yn rhannol)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	Schedule 11 (partially)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)

Atodlen 12, paragraffau 1, 2 a 6	28 Mehefin 2011	2011/1586 (Cy. 182)	Schedule 12, paragraphs 1, 2 and 6	28 June 2012	2011/1586 (W. 182)
Atodlen 12 (yn llawn)	1 Ebrill 2012	2012/969 (Cy. 126)	Schedule 12 (fully)	1 April 2012	2012/969 (W. 126)

2012 Rhif 1423 (Cy.176) (C.53)

Y GYMRAEG

**Gorchymyn Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 6)
2012**

Gwnaed

29 Mai 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 150(5) a 156(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 6) 2012.

Cychwyn

2. Daw darpariaethau canlynol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i rym ar 1 Mehefin 2012—

- (a) adrannau 4 ac 11;
- (b) adran 144(1) i'r graddau mae'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny a roddwyd i'r Comisiynydd gan adran 3 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(2); ac
- (c) adran 144(3)(a) at ddibenion diddymu isadrannau (2)(a), (3) a (4) o adran 3 o'r Ddeddf honno.

(1) 2011 mccc 1.

(2) 1993 p. 38. Cafodd swyddogaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 eu trosglwyddo i Gomisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill 2012 o ganlyniad i gychwyn adran 143(2) Mesur y Gymraeg. Yn ogystal a'r trosglwyddiad hwnnw i'r Comisiynydd, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Bwrdd dan adran 3 o Ddeddf 1993 i Weinidogion Cymru ar 1 Ebrill 2012 gan erthygl 3 o Orchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012 (O.S. 2012/990 (Cy.130)). Cafodd y gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pŵer roddwyd iddynt gan adran 154 y Mesur.

2012 No. 1423 (W.176) (C.53)

WELSH LANGUAGE

**The Welsh Language (Wales)
Measure 2011 (Commencement
No.6) Order 2012**

Made

29 May 2012

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 150(5) and 156(2) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011(1), make the following Order:

Title

1. The title of this Order is the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (Commencement No.6) Order 2012.

Commencement

2. The following provisions of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 come into force on 1 June 2012—

- (a) sections 4 and 11;
- (b) section 144(1) in so far as it relates to those functions conferred upon the Commissioner by section 3 of the Welsh Language Act 1993(2); and
- (c) section 144(3)(a) for the purpose of repealing subsections (2)(a), (3) and (4) of section 3 of that Act.

(1) 2011 nawm 1.

(2) 1993 c. 38. The Welsh Language Board's functions under section 3 of the Welsh Language Act 1993 were transferred to the Welsh Language Commissioner on 1 April 2012 as a result of the commencement of section 143(2) of the Welsh Language Measure. In addition to that transfer to the Commissioner, functions of the Board under section 3 of the 1993 Act were transferred to the Welsh Ministers on 1 April 2012 by article 3 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (Transfer of Functions, Transitional and Consequential Provisions) Order 2012 (S.I. 2012/990 (W. 130)). The transfer of functions order was made by the Welsh Ministers in reliance upon the powers conferred upon them by section 154 of the Measure.

Leighton Andrews

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion
Cymru

Minister for Education and Skills, one of the Welsh
Ministers

29 Mai 2012

29 May 2012

©[©] Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office
Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei
Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the
authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's
Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 1423 (Cy.176) (C.53)

Y GYMRAEG

Gorchymyn Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 6)
2012

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 1423 (W.176) (C.53)

WELSH LANGUAGE

The Welsh Language (Wales)
Measure 2011 (Commencement
No.6) Order 2012